## 2025/2026 Traciwr Eitemau Gweithredu Bwrdd Llais

| Cyfeirnod Gweithred | Nodau ac Eitemau Gweithredu | Rhanbarth Cyfrifol | Person(au) Cyfrifol | Dyddiad cychwyn: | Dyddiad Dyledus | Statws | % cwblhau pob eitem gweithredu | Diweddariad / Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A25-07-01** | **Sbotolau ar ein gweithgareddau: Gofal Cymdeithasol** Gweithio gyda phartneriaid i ddathlu llwyddiant ymhellach er mwyn lledaenu modelau effeithiol a rhannu profiadau. | Tîm Cenedlaethol | Ben Eaton | **Jul-25** | **Mar-26** | **Ar y Gweill** | 50% | Mae gwaith wedi dechrau ar gomisiynu ymchwil i ddathlu a rhannu llwyddiant mewn GC - bydd hyn yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2026. |
| **A25-07-02** | **Sbotolau ar ein gweithgareddau: Gofal Cymdeithasol** Y Prif Weithredwr i ymgysylltu â Chyfarwyddwr Rhanbarthol Powys i gael y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau canolfannau dydd ym Mhowys a rhannu hyn gyda'r Bwrdd. | Tîm Cenedlaethol | Alyson Thomas | **Jul-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol ym Mhowys. Diweddariad llafar i'w ddarparu yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Medi 2025. |
| **A25-07-03** | **Sbotolau ar ein gweithgareddau: Gofal Cymdeithasol** Y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd i gadarnhau'r cynigion ar gyfer y sesiwn bwrdd-i-fwrdd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Tîm Cenedlaethol | Alyson Thomas / Richard Bevan | **Jul-25** | **Sep-25** | **Ar y Gweill** | 75% | Mae trafodaethau wedi digwydd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gytuno ar drefniadau. Cynigiwyd y byddai'r cyfarfod ar y cyd yn digwydd ym mis Ionawr 2026. Mae'r dyddiad yn cael ei gadarnhau ar hyn o bryd. |
| **A25-07-04** | **Adroddiad gan y Prif Weithredwr** Y Prif Weithredwr i drefnu datblygiad nodyn briffio ar y broses adolygu barnwrol, gyda chyngor cyfreithiol ar unrhyw oblygiadau yn llywio canllawiau i staff Llais. | Tîm Cenedlaethol | Alyson Thomas | **Jul-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Briff cyfreithiol a ddarparwyd gan ein gwasanaethau cyfreithiol ac a drafodwyd gyda'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cadarnhaodd y cyngor briodoldeb rôl Llais yn y broses newid gwasanaeth heb unrhyw ofyniad i ddiwygio ein canllawiau na'n dull gweithredu. |
| **A25-07-05** | **Perfformiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol – Chwarter 1 2025/26** Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu i gynnwys rhagor o wybodaeth am effaith a'r rhaglen 'Y gofal iechyd a chymdeithasol a garem' mewn adroddiadau chwarterol yn y dyfodol. | Tîm Cenedlaethol | Ben Eaton | **Jul-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Bydd gan y Bwrdd ddiweddariad llawn ar y prosiect Carem fel rhan o agenda cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi ac mae hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y papur diweddariad perfformiad. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A25-07-06** | **Perfformiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol – Chwarter 1 2025/26**<br>Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r Bwrdd ar y rhaglen 'Y gofal iechyd a chymdeithasol a garem'. Byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn rhaglen datblygu'r Bwrdd. | Tîm Cenedlaethol | Ben Eaton / Richard Bevan | **Jul-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Mae thema cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2025 yn canolbwyntio ar y rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Garem. Mae diweddariad pellach wedi'i ychwanegu at raglen waith y Bwrdd ar gyfer y dyfodol. Wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2026. |
| **A25-07-07** | **Adroddiad cyllid hyd at ddiwedd mis Mehefin 2025**<br>Byddai Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol yn ceisio eglurhad ynghylch y taliadau yswiriant gwladol ar gyfer contractwyr a staff asiantaeth. | Tîm Cenedlaethol | Joanne Bolton | **Jul-25** | **Oct-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Mae CThEM yn cyflwyno newidiadau i staff asiantaeth sy'n effeithio'n bennaf ar gwmnïau ymbarél ac asiantaethau recriwtio o fis Ebrill 2026, gan eu gwneud yn atebol ar y cyd am Gyfraniadau PAYE ac Yswiriant Gwladol (NICs) heb eu talu. Mae ein hymchwiliad yn dangos nad oes unrhyw effaith uniongyrchol i Llais, gan nad ydym yn recriwtio staff asiantaeth drwy drefniadau cwmni ymbarél. Rydym hefyd wedi cael gwahoddiad i fynychu gweminar ar 7 Hydref a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **A25-07-08** | **Diweddariad gweithlu gan gynnwys dangosfwrdd**<br>Cyfres o ddiweddariadau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithlu, Cyflogau a Thelerau Gwasanaeth ym mis Hydref 2025. | Tîm Cenedlaethol | Joanne Bolton | **Jul-25** | **Oct-25** | **Ar y Gweill** | 25% | Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn. Bydd Pwyllgor GTThG yn derbyn diweddariad yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2025. |
| **A25-07-09** | **Rhaglen datblygu'r bwrdd**<br>Ysgrifennydd y Bwrdd i gyflwyno'r rhaglen waith newydd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2025 i'w chymeradwyo. | Tîm Cenedlaethol | Richard Bevan | **Jul-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Mae rhaglen waith wedi'i diweddaru ar agenda'r Bwrdd ar gyfer cyfarfod mis Medi 2025. |
| **A25-07-10** | **Cwestiynau gan y cyhoedd**<br>Byddai'r sefyllfa gyda'r ymatebion terfynol i'r cwestiynau yn cael ei chadarnhau yn y log gweithredu ar gyfer y Bwrdd i sicrhau ei fod yn dod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. | Tîm Cenedlaethol | Richard Bevan | **Jul-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Er mwyn sicrhau bod yr ymatebion a roddir i'r ddau gwestiwn a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn rhan o'r cofnod cyhoeddus, mae atodiad ynghlwm sy'n rhoi trosolwg o'r atebion a roddwyd. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A25-05-02** | Thema'r cynrychioliadau i'w chynnwys mewn sesiwn datblygu a drefnwyd yn y dyfodol. | Tîm Cenedlaethol | Richard Bevan | **May-25** | **Sep-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Mae'r awgrym wedi'i ychwanegu at y rhaglen waith ymlaen llaw yn ail hanner y flwyddyn.<br>Mae hyn wedi'i gynnwys yn amserlen a chynllun gwaith y Bwrdd ac ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 24 Medi 2025. |
| **A25-05-03** | Pryderon ynghylch nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd ar gael ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Trafodaethau i ddigwydd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru | Tîm Cenedlaethol | Alyson Thomas | **May-25** | **Jun-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Trefnwyd cyfarfod gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i drafod cynnydd gyda'i Gynllun Gweithlu Gwaith Cymdeithasol. |
| **A25-04-01** | Rhannu stori'r bobl ar draws Llais i annog rhanbarthau eraill i'w dwyn i sylw eu partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol a AaGIC. | Gorllewin Cymru | Donna Coleman | **Apr-25** | **May-25** | **Ar y Gweill** | 75% | Mae'r stori wedi'i rhannu â rhanbarthau eraill o Llais ac mae cynlluniau i'w rhannu ymhellach â phartneriaid gofal cymdeithasol eraill a AaGIVC. |
| **A24-09-04** | **Dangosfwrdd Risg Corfforaethol:** Dangosfwrdd gwell i'w gynhyrchu drwy'r system OKR. | Tîm Cenedlaethol | Ben Eaton / Richard Bevan | **Sep-24** | **May-25** | **Wedi'i gwblhau** | 100% | Mae Dangosfwrdd risg newydd wedi'i atodi i bapurau'r Bwrdd ym mis Medi ochr yn ochr â'r adroddiad risg naratif newydd. |
| **A24-01-02** | **Metrigau'r Gweithlu:** Y Tîm Cenedlaethol i ddarparu rhagor o wybodaeth am amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n gwneud cais am rolau o fewn Llais. | Tîm Cenedlaethol | Joanne Bolton / Chris Davies | **Jan-24** | **May-25** | **Tu ôl yr Amserlen** | 75% | Bydd metrigau'r gweithlu yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl ac Amodau Gwasanaeth ac adroddiadau dangosfwrdd gweithlu lefel uchel i'r Bwrdd.<br>Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gyda Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir y GIG. Bydd hyn yn cefnogi echdynnu ac adrodd data recriwtio o system Trac. Bydd diweddariad pellach yn cael ei rannu yng nghyfarfod GTThG ym mis Hydref a bydd yn rhan o adrodd chwarterol y dangosfwrdd. **Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y cam gweithredu hwn wedi'i gau gan y bydd bellach yn cael ei adrodd i'r pwyllgor, nad oedd ganddo ei gylch gwaith estynedig pan nodwyd y cam gweithredu gyntaf. Bydd adroddiadau sicrwydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd gan y pwyllgor fel rhan o'r broses adrodd arferol.** |